# CARAS WALES

## NEWSLETTER

**Issue No. 4** **December 2018**

### Chairman's Welcome

Mr DE Meurig James FRAgS, Chair of CARAS Wales - Welcomes you to another edition of the CARAS Wales Newsletter. The National Panel have been busy raising the profile of CARAS Wales on your behalf. We submitted a response to the Brexit Consultation 'Brexit and our Land' and are actively planning a more educational and interactive Conference in January.

CARAS Wales continues to keep you up-to-date with news of events such as the Show Reception, Conferences and Field Days. Without your continued support these events would not be possible. Please make every effect to attend.

### Reception at the Royal Welsh Show

The Reception was held on Tuesday 24 July, with the Presentation of Awards to 10 new Associates and 7 Fellows. Around 300 members and their guests attended the ceremony and following some feedback we propose to make further improvements to the structure and layout of the event in 2019.

**2018 Field Day** – On behalf of CARAS Wales members I would like to thank Mr Terrig Morgan and family for a very successful field day held in September, just over 100 people attended (which included members and their guests). The feedback received from members that the day was very much enjoyed by everyone with great hospitality even though the weather was a little damp at times.

### 2019 Conference – Demonstration and Innovation Day

The intention of the 2019 conference is to host a Demonstration and Innovation Day at the showground on Friday 1 February, which will involve working demonstrations including robotics and other technologies. The demonstrations would be lead by guest speakers and kindly supported by Coleg Cambria and Coleg Sir Gâr. Mr Alastair Taylor, Chief Executive of the Institution of Agricultural Engineers and Mr Tim Bennett will also be speaking about their exciting new initiatives.

CAMBRIA colegsirgâr Harper Adams University

CARAS Wales, The Royal Welsh Agricultural Society, Llanelwedd, Builth Wells, Powys, LD2 3SY
Tel: 01982 554412 Fax: 01982 553563 Email: chiefexecutive@rwas.co.uk

Officials: Mr D E Meurig James FRAgS (Chair), Mr Emyr W Jones FRAgS (Vice Chair)
Mr W I Cyril Davies FRAgS (RWAS Rep CARAS), Mr Steve Hughson ARAgS (Honorary Secretary)

## 2019 Field Day

Mr Brian Jones of Castell Howell Foods Ltd has kindly agreed to host the 2019 field day in Carmarthenshire. Further details will be available at the next Council meeting on 1 February 2019.

Castell Howell

## Nuffield Farming Scholarship

CARAS Wales would like to encourage its members to help promote the 2019 Nuffield Farming Scholarship sponsored by the Royal Welsh Agricultural Society.

The aim is to create a study scholarship for a person working in any part of the meat chain, from farmer to retail butcher. Applicants should mostly be established in their own business or in a management position in their company. The normal age would be between 26 and 45 and an important part of their application is how they plan to manage their absence from the business for the 8 to 10 weeks needed for the scholarship.

NUFFIELD FARMING SCHOLARSHIPS TRUST

The closing date for Awards will be 31 July each year. Short-listing for interview will take place in early September and interviews will be held in early October.

Further information is available on the Nuffield Farming Scholarship website:
www.nuffieldscholar.org
Nuffield Scholars published reports are also available on the Nuffield International website: http://nuffieldinternational.org/live/Reports

## Potential Candidate Nominations

Members are invited to identify potential candidates for Associateship – Please submit any nominations by early January to be considered at the January meeting, or by the May meeting. Potential candidate forms are available from the office (contact details below).

## Privacy Notice

CARAS have issued a privacy notice which explains how the Council for Awards of Royal Agricultural Societies collects, stores and uses your personal information. By providing your information enables CARAS to maintain a database of records, to keep you up-to-date with information/events and notify you about any changes. A copy of the full privacy notice is available from the office.

## Website

Further information and updates available at
www.royalagriculturalsocietiesawards.org

The Fellowship of Royal Agricultural Societies Coordinated by: CARAS

CARAS Wales, The Royal Welsh Agricultural Society, Llanelwedd, Builth Wells, Powys, LD2 3SY
Tel: 01982 554412 Fax: 01982 553563 Email: chiefexecutive@rwas.co.uk

Officials: Mr D E Meurig James FRAgS (Chair), Mr Emyr W Jones FRAgS (Vice Chair)
Mr W I Cyril Davies FRAgS (RWAS Rep CARAS), Mr Steve Hughson ARAgS (Honorary Secretary)

# CARAS CYMRU

## NEWSLETTER

**Rhifyn 4** **Rhagfyr 2018**

**Croeso'r Cadeirydd**

Mae Mr DE Meurig James FRAgS, Cadeirydd CARAS Cymru – yn eich croesawu i rifyn arall o Gylchlythyr CARAS Cymru. Bu'r Panel Cenedlaethol yn brysur yn codi proffil CARAS Cymru ar eich rhan. Fe wnaethom gyflwyno ymateb i Ymgynghoriad Brexit 'Brexit a'n Tir' ac rydym wrthi'n cynllunio Cynhadledd mwy addysgol a rhyngweithiol ym mis Ionawr.

Mae CARAS Cymru'n dal i roi gwybod ichi am y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau megis Derbyniad y Sioe, Cynadleddau a Diwrnodau Maes. Heb eich cefnogaeth barhaus chi ni fyddai'r digwyddiadau hyn yn bosibl. Gofynnwn ichi wneud bob ymdrech i'w mynychu os gwelwch yn dda.

**Derbyniad yn Sioe Frenhinol Cymru**

Cynhaliwyd y Derbyniad ar ddydd Mawrth 24 Gorffennaf, gyda Chyflwyniad Gwobrau i 10 Aelod Cyswllt a 7 Cymrawd newydd. Roedd tua 300 o aelodau a'u gwesteion yn bresennol yn y seremoni ac yn dilyn adborth rydym yn bwriadu gwneud gwelliannu pellach i strwythur a chynllun y digwyddiad yn 2019.

**Diwrnod Maes 2018** – Ar ran aelodau CARAS Cymru, byddwn yn hoffi diolch i Mr Terrig Morgan a'r teulu am ddiwrnod llwyddiannus iawn a gynhaliwyd ym mis Medi, roedd ychydig dros 100 o bobl yn bresennol (a oedd yn cynnwys aelodau a'u gwesteion). Yr adborth a dderbyniwyd gan aelodau oedd bod pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr iawn gyda lletygarwch gwych, hyd yn oed er bod y tywydd tipyn yn wlyb ar adegau.

**Cynhadledd 2019 – Diwrnod Arddangos ac Arloesi**

Bwriad cynhadledd 2019 yw cynnal Diwrnod Arddangos ac Arloesi ar faes y sioe ar ddydd Gwener 1 Chwefror, a fydd yn golygu arddangosiadau gweithredol sy'n cynnwys roboteg a thechnolegau eraill. Bydd yr arddangosiadau'n cael eu harwain gan siaradwyr gwadd a'u cefnogi'n garedig gan Goleg Cambria a Choleg Sir Gâr. Bydd Mr Alastair Taylor, Prif Weithredwr Sefydliad y Peirianwyr Amaethyddol a Mr Tim Bennett yn siarad hefyd am eu mentrau newydd cyffrous.

CAMBRIA coleg sir gâr Harper Adams University

CARAS Wales, The Royal Welsh Agricultural Society, Llanelwedd, Builth Wells, Powys, LD2 3SY
Tel: 01982 554412 Fax: 01982 553563 Email: chiefexecutive@rwas.co.uk

Officials: Mr D E Meurig James FRAgS (Chair), Mr Emyr W Jones FRAgS (Vice Chair)
Mr W I Cyril Davies FRAgS (RWAS Rep CARAS), Mr Steve Hughson ARAgS (Honorary Secretary)

## Diwrnod Maes 2019

Mae Mr Brian Jones o Fwydydd Castell Howell Cyf wedi cytuno'n garedig i gynnal diwrnod maes 2019 yn sir Gâr. Bydd mwy o fanylion ar gael yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 1 Chwefror 2019.

Castell Howell

## Ysgoloriaeth Ffermio Nuffield

Byddai CARAS Cymru'n hoffi annog ei haelodau i helpu i hyrwyddo Ysgoloriaeth Ffermio Nuffield 2019, a noddir gan Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru.

Y nod yw creu ysgoloriaeth astudio ar gyfer rhywun sy'n gweithio mewn unrhyw ran o'r gadwyn gig, o ffermwr i gigydd manwerthu. Dylai ymgeiswyr gan mwyaf fod wedi'u sefydlu yn eu busnes eu hunain neu mewn swydd reoli yn eu cwmni. Yr oed arferol fyddai rhwng 26 a 45 a rhan bwysig o'u cais yw sut y maent yn bwriadu rheoli'u habsenoldeb o'r busnes am yr 8 i 10 wythnos sydd eu hangen ar gyfer yr ysgoloriaeth.

NUFFIELD FARMING SCHOLARSHIPS TRUST

Y dyddiad cau ar gyfer Gwobrau fydd 31 Gorffennaf bob blwyddyn. Bydd llunio rhestr fer ar gyfer cyfweld yn digwydd yn nechrau Medi a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn nechrau Hydref.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Ysgoloriaeth Ffermio Nuffield:
www.nuffieldscholar.org
Mae adroddiadau cyhoeddedig Ysgolorion Nuffield ar gael hefyd ar wefan Ryngwladol Nuffield: http://nuffieldinternational.org/live/Reports

## Enwebiadau Ymgeiswyr Posibl

Gwahoddir yr aelodau i enwi ymgeiswyr posibl ar gyfer Aelodaeth Gyswllt – cyflwynwch unrhyw enwebiadau erbyn dechrau Ionawr os gwelwch yn dda iddynt gael eu hystyried yng nghyfarfod mis Ionawr, neu erbyn cyfarfod mis Mai. Mae ffurflenni ymgeiswyr posibl ar gael o'r swyddfa (manylion cyswllt isod).

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae CARAS wedi cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd sy'n egluro sut y mae Cyngor Dyfarniadau'r Cymdeithasau Amaethyddol Brenhinol yn casglu, storio a defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Mae darparu eich gwybodaeth yn galluogi CARAS i gynnal cronfa ddata o gofnodion, i roi'r newydd diweddaraf ichi am wybodaeth/digwyddiadau a rhoi gwybod ichi am unrhyw newidiadau. Mae copi o'r hysbysiad preifatrwydd llawn ar gael o'r swyddfa.

## Gwefan

Mwy o wybodaeth a diweddariadau ar gael ar
www.royalagriculturalsocietiesawards.org

The Fellowship of Royal Agricultural Societies Coordinated by: CARAS

CARAS Wales, The Royal Welsh Agricultural Society, Llanelwedd, Builth Wells, Powys, LD2 3SY
Tel: 01982 554412 Fax: 01982 553563 Email: chiefexecutive@rwas.co.uk

Officials: Mr D E Meurig James FRAgS (Chair), Mr Emyr W Jones FRAgS (Vice Chair)
Mr W I Cyril Davies FRAgS (RWAS Rep CARAS), Mr Steve Hughson ARAgS (Honorary Secretary)